PLANT DEWI

Lle mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Gweithio yn Eich Cymuned
Working in Your Community

ANNUAL REVIEW 2018

Rhif Elusen / Registered Charity No: 244178 www.plantdewi.org.uk info@plantdewi.co.uk
Prosiect datblygu cymunedau Cyngor Esgobaeth Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol
A community development project of the St Davids Diocesan Council for Social Responsibility

PLANT DEWI

Lle mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Introduction - Manager, Plant Dewi

Plant Dewi engages and supports local families, building on a 60 year heritage of social action in the Diocese.

We are in a time of austerity and it is critical for organisations like ourselves to remain resilient. The Plant Dewi team is professional, stable and fully dedicated to its vision, mission and ethos. The Team humbly recognises the impact their trusting relationships can make to the lives of families. The Team is Plant Dewi's strength when times get tough. Throughout the voluntary and statutory sector funding is a challenge with organisations reaching critical points and services being cut. The impact on families is harsh and they too need to be resilient. We know that resilience increases with the support of friends and people around who care. Our projects engage with those who are isolated, for whatever reason, and provide opportunities for friendships to be made. The impact of friendships cannot be underestimated as they bring with them a sense of well-being, the precursor for a positive change.

This year we have worked with 5025 families. These numbers give an indication of the extent of our work but it is the quality we value most.

I hope that the report gives you an insight into this quality and its impact on lives.

Sue Fletcher

Welcome – Chair, St Davids Diocesan Council for Social Responsibility

Plant Dewi increasingly continues to make a real difference to children and families facing many issues in West Wales.

I am once again encouraged that through its work, it has reached out in practical ways to place the Gospel of Christ at the heart of community. This has been achieved primarily because of the commitment, professionalism and compassion of the Plant Dewi staff and volunteers.

Let us all continue to pray for this valuable work, that it will be sustainable and that it will, with imagination, flourish as it seeks to reach out to a broken world in love.

Delyth Wilson

Plant Dewi is the Diocese of St Davids very own project, supporting the wellbeing of families in its communities. It is part of the work of the St Davids Diocesan Council for Social Responsibility.

Our mission is to make available projects that provide the opportunities to improve the quality of life for children, young people and their families across South West Wales.

Our vision is for a community that empowers parents, nurtures children and strengthens families. The approach builds on strengths and empowers people and communities to gain confidence, motivation, skills, and knowledge. Resilience is increased allowing for informed choices to be made, bringing about positive changes in lives/communities.

Our projects

Family centres provide a caring place where parents are supported to grow personally; to develop positive relationships with their children, families and communities; to increase their knowledge of childcare; to develop a sense of belonging and to improve their wellbeing. The independent family centres are owned by the community and have charitable status. They are in Betws, Felinfoel, Llanelli, Trimsaran, Burry Port, Garnant, Carmarthen (Ty Ni and Ty Hapus), Pencader, Llanybydder, Lampeter, Llandysul, Tregaron and Borth. 3433 individuals benefitted last year.

Young Parents' Hubs provide friendship networks, peer- support and opportunities to develop aspirations for the future, as well as providing support to young parents both in their caring role and as young people. The hubs are in Pencader, Llandybie, Ammanford and Pembroke Dock.

Eighty-two young parents benefitted from the hubs last year.

The Hwb Plant Dewi, Pembroke Dock is the home of the men's project.

The Dewi project offers opportunities for men to socialise, share food, share experiences and increase their networks of support. The aim is to support males in order to lessen their isolation, create a sense of belonging, increase their motivation and encourage them to have a healthier lifestyle.

Twenty three dads benefited last year.

The Dads Lego club helps to deepen the bond fathers share with their children.

Eight dads have joined in with their children.

The Healthy Hearts project provides a varied programme that encourages men to join in fun social and physical activities.

Seven males joined in last year.

Families Together groups offer local support to families experiencing isolation. The aims are similar to those of the traditional family centres. However, they operate on a smaller scale, are low in cost and are able to respond quickly to local need.

There are four family groups in Newcastle Emlyn, Llandeilo, Pembroke Dock and the Mount Estate in Milford Haven.

Seventy-four families are members, which includes 106 children.

The Baby Bundle project provides support in the form of resources to those young parents struggling financially during pregnancy eg provision of maternity clothes and, following the birth, of baby clothes and equipment.

Last year 49 bundles were given out between October and April.

How well did we do?

Creating friendships

Every project has a drop-in facility which provides a relaxed space where parents can make friends, chat, share experiences, and receive and give support. As parents develop friendships they feel a sense of belonging and of feeling valued, which spills out into the community. Parents have an increased number of people around them who care for them. These friendships are valuable resources which can provide emotional support, informational support, practical support, hope and encouragement. Resilience is increased which enables parents to be better equipped to cope with every-day situations. Aspirations begin to grow and new skills and knowledge are gained. Slowly but surely more and more life choices become available.

Last year we worked with 5025 individuals and 100% reported new friendships.

Evaluations show

I now have friends who:-
100% - listen to me
94% - understand me
100% - have time for me
82% - help me to do things
88% -I meet up with outside the group
74% - help me as they know how to do things
100% - I laugh with
69% - I cry with
94 % - I share celebrations

Parents say

'Since coming to the group it has given me a sense of purpose and acceptance, issues feel lighter'

'Made lots of friends who have become my family, love having support and people to talk to.'

"It has given me friends, confidence and happiness."

Creating childhood memories

We want children and parents to remember the fun times that they had together, the events and the trip they went on. This can be difficult if you are on your own, lack confidence, have a limited budget and transport isn't available. Plant Dewi provides opportunities to help to create lasting memories.

Me and my dad

Trips to Cardiff Bay are always popular



Down on the farm

A fun day cuddle

Parents say

'I didn't have the confidence to go anywhere on my own'

'I will never forget the day we all went to Cardiff Bay'

'We laughed and laughed'

Supporting relationships

Plant Dewi knows that parents thrive when they have the support of family/friends who care for them and when they understand and accept who they are and learn to believe in themselves, recognising the positive influence that they can be within their family and community no matter what circumstances they find themselves in. Our projects strengthen relationships in the home and in the community. We want to enhance communication, listening and negotiation skills between parents/carers and children, between partners, and between families and public services.

Parents tell us

'Loved baby massage, sensory play, messy play, and trips out. It's given me support and advice on my journey being a new mother.'

Evaluations show

Young parents felt so confident in their communication and assertiveness skills enabling them to access 30 organisations between them.

Helping parents to be parents

Parents discover different kinds of family values and explore techniques to ease situations where their children's behaviour is challenging. All the projects have parenting as part of their core services as we believe that parenting is one of the most difficult tasks to carry out and is so important. We are not striving to be perfect parents, if that is at all possible, but to be good enough is a great achievement. Our support can be informal as staff act as good role models handling every-day situations. Parenting skills are developed in play sessions, during lunch club, and in fact it is part of everything we do. We also have formal courses and programmes that the parents take part in and receive a certificate of completion.

Parents tell us

'The best thing was the parenting course'.

'I have learnt how to manage my child's difficult behaviour'

Parents are proud of their certificates

Learning new skills

When confidence and self-esteem grow, learning new skills becomes possible. In the safe environment of the project, surrounded by friends having a go, learning something new feels good and attainable.

Parents tell us

'I can't believe how much I have achieved and I have become more confident in myself in two years'

'We can think about our future'

'We learn new stuff'

Helping the community

The projects have become fully integrated within their communities transforming people who had been dependent upon a community into the emerging leaders of that community.

"Family Festival" It was a wonderful day with over 400 individuals from Felinfoel

Party in the park

Generations getting together

'Get Up and Grow' gardening session on a Saturday morning for the community

Just for men

We have made a space just for men. A low demand, male orientated, weekly drop-in facility offers opportunities for men to socialise, share food, share common experiences and increase their networks of support.

The project reached 23 men in its first year.

Parents tell us

'The drop-in picks me up when I'm feeling a bit low'

'If you're living on your own it gets you out of the house for some company'

'If I didn't come here today I don't know what I would have done I was feeling very low'

Initial evaluations are positive

I feel welcomed and valued by the group 100%
I have met new friends through the group 100%
I've experienced increased opportunities 66%
The project supports me in my personal relationships 50%
I feel more able to cope with life's challenges 83%
The project has made a practical difference to me 100%
The project has supported my wellbeing 100%

Celebrating together

We like to think that we have created a family within the project and as a family we celebrate together.

Nativity

Christingle service

The Easter Story

St David's Day

Celebrating Women

Providing that extra support

Baby Bundle resources welcome a new baby into the home

The Dewi Project lends a helping hand to those struggling in the community

Pencader Family Centre food cooperative provides good quality fruit and vegetables to local people at an affordable price, has its own volunteer base and helps to establish a better diet for families. It has been an enjoyable and worthwhile service and looks forward to supporting the local community for years to come.

Cynnig cymorth ychwanegol

Mae adnoddau'r Bwndel Baban yn rhoi croeso i faban newydd i'r cartref

Mae Prosiect Dewi yn rhoi help llaw i reini sy'n cael trafferth yn y gymuned

Mae cydweithfa fwyd Canolfan Deulu Pencader yn cynnig ffrwythau a llysiau o safon uchel i bobl leol am bris fforddiadwy. Mae ganddi ei sail gwirfoddolwyr ei hun ac mae'n helpu i wella deiet teuluoedd. Mae wedi bod yn wasanaeth hwyliog a gwerth chweil ac mae'n edrych 'mlaen at gefnogi'r gymuned leol am flynyddoedd i ddod.

Dathlu gyda'n gilydd

Rydym yn hoff o feddwl ein bod wedi creu teulu o fewn y prosiect, ac fel teulu rydym yn dathlu gyda'n gilydd.

Storïr Geni

Gwasanaeth Cristingl

Storïr Pasg

Dydd Gŵyl Dewi

Dathlu Menywod

Dim ond dynion

Rydym wedi creu gofod ar gyfer dynion yn unig. Mae cyfleuster 'galw heibio' hamddenol, wythnosol sy'n canolbwyntio ar y gwrywod yn rhoi cyfleoedd i ddynion gymdeithasu, rhannu bwyd, rhannu profiadau cyffredin ac ehangu eu rhwydweithiau cymorth.

Gwnaeth y prosiect gysylltu â 23 o ddynion yn ei flwyddyn gyntaf.

Mae rhieni'n dweud

'Mae'r sesiynau'n codi fy ysbryd pan fydda i'n teimlo braidd yn isel.'

'Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, mae'n eich annog i adael y tŷ a chael cwmni.'

'Heb ddod yma heddiw dwi ddim yn gwybod beth fydden i wedi ei wneud. Ro'n i'n teimlo'n isel iawn.'

Mae'r gwerthusiadau cychwynnol yn gadarnhaol

Dwi wedi cael croeso a dwi'n teimlo bod y grŵp yn fy ngwerthfawrogi - 100%
Dwi wedi cwrdd â ffrindiau newydd drwy'r grŵp - 100%
Dwi wedi cael mwy o gyfleoedd - 66%
Mae'r prosiect yn fy nghefnogi gyda fy mherthnasau personol - 50%
Dwi'n gallu ymdopi'n well â heriau bywyd - 83%
Mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth ymarferol i mi - 100%
Mae'r prosiect wedi cefnogi fy lles - 100%

Helpu'r gymuned

Mae'r prosiectau wedi'u hintegreiddio'n llawn yn eu cymunedau, gan drawsnewid pobl a oedd yn ddibynnol ar eu cymuned yn arweinwyr yn y gymuned honno.

Roedd 'Gŵyl y Teulu' yn ddiwrnod gwych gyda mwy na 400 o unigolion o Felin-foel

Parti yn y parc

Cenedlaethau'n dod ynghyd

Sesiwn arddio 'Codi a Thyfu' i'r gymuned ar fore Sadwrn

Dysgu sgiliau newydd

Gall rhieni'n ddysgu sgiliau newydd wrth i hyder a hunan-barch gynyddu. O fewn amgylchedd diogel y prosiect, wedi'u hamgylchynu gan ffrindiau, mae rhoi cynnig ar rywbeth a dysgu rhywbeth newydd yn teimlo'n dda a chyraeddadwy.

Mae rhieni'n dweud

'Dwi methu credu faint dwi wedi ei gyflawni. Dwi'n fwy hyderus o lawer ar ôl dim ond dwy flynedd.'

'Ry'n ni'n gallu meddwl am ein dyfodol.'

'Ry'n ni'n dysgu stwff newydd.'

Perthnasau cefnogol

Mae Plant Dewi'n gwybod bod rhieni ar eu gorau gyda chefnogaeth teulu/ffrindiau sy'n gofalu amdanynt a phan maent yn deall ac yn derbyn pwy ydyn nhw ac yn dechrau credu yn eu hunain, gan gydnabod y dylanwad cadarnhaol y gallant ei gael ar eu teulu a'u cymuned waeth beth yw eu hamgylchiadau. Mae ein prosiectau yn atgyfnerthu perthnasau yn y cartref a'r gymuned. Rydym am wella sgiliau cyfathrebu, gwrando a thrafod rhwng rhieni/gofalwyr a phlant, rhwng partneriaid a rhwng teuluoedd a gwasanaethau cyhoeddus.

Mae rhieni'n dweud

'Roedd y sesiynau massage babanod, chwarae synhwyraidd, chwarae anniben a'r teithiau yn wych. Cefais gyngor a chymorth ar fy nhaith at fod yn fam newydd.'

Mae gwerthusiadau'n dangos

Roedd rhieni ifanc yn teimlo mor hyderus gyda'u sgiliau cyfathrebu a'u pendantrwydd nes iddynt ddefnyddio gwasanaethau 30 o sefydliadau rhyngddynt.

Helpu rhieni i fod yn rhieni

Mae rhieni'n darganfod gwahanol fathau o werthoedd teuluol ac yn edrych ar dechnegau i hwyluso sefyllfaoedd lle mae ymddygiad eu plant yn heriol. Mae'r holl brosiectau'n cynnwys magu plant fel rhan o'u gwasanaethau craidd oherwydd rydym o'r farn mai magu plant yw un o'r tasgau anoddaf a phwysicaf i'w chyflawni. Dydyn ni ddim yn ceisio bod yn rhieni perffaith, os yw hynny'n bosibl o gwbl, ond mae bod yn ddigon da yn dipyn o gyflawniad. Gall ein cefnogaeth fod yn anffurfiol gan fod staff yn dangos esiampl drwy ddelio â sefyllfaoedd o ddydd i ddydd. Mae sgiliau magu plant yn cael eu datblygu mewn sesiynau chwarae ac yn y clwb cinio – yn wir, maent yn rhan o bopeth rydym yn ei wneud. Mae gennym hefyd gyrsiau a rhaglenni ffurfiol y mae rhieni'n cymryd rhan ynddynt ac maent yn cael tystysgrif ar ôl eu cwblhau.

Mae rhieni'n dweud

'Y peth gorau oedd y cwrs magu plant.'

'Dwi wedi dysgu sut i reoli ymddygiad heriol fy mhlentyn.'

Rhieni balch gyda'u tystysgrifau

Creu atgofion yn ystod plentyndod

Rydym am i blant a rhieni gofio'r hwyl maent yn ei gael gyda'i gilydd, y digwyddiadau a'r teithiau y maent yn eu mwynhau. Gall hyn fod yn anodd os ydych ar eich pen eich hun, yn dioddef o ddiffyg hyder neu arian ac nad oes trafnidiaeth ar gael. Mae Plant Dewi yn cynnig cyfleoedd i helpu i greu atgofion am oes.

Fi a dad

Mae teithiau i Fae Caerdydd bob amser yn boblogaidd



Lawr ar y fferm

Cwtsh ar ddiwrnod o hwyl a sbri

Mae rhieni'n dweud

‘Doedd gen i ddim hyder i fynd i unrhyw le ar ben fy hun.’

'Wna i fyth anghofio'r dydd ym Mae Caerdydd.’

'Buon ni'n chwerthin drwy'r dydd.'

Pa mor dda wnaethom ni?

Creu cyfeillgarwch

Mae pob prosiect yn cynnig cyfleuster 'galw heibio' sy'n rhoi rhywle i rieni ymlacio, gwneud ffrindiau, sgwrsio, rhannu profiadau a derbyn a rhoi cymorth. Wrth i rieni ddatblygu cyfeillgarwch maent yn teimlo ymdeimlad o berthyn a gwerth, sy'n ymledu i'r gymuned. Mae gan rieni fwy o bobl o'u cwmpas sy'n poeni amdanynt. Mae'r cyfeillgarwch hwn yn adnodd gwerthfawr a all gynnig cymorth emosiynol, gwybodaeth, cymorth ymarferol, gobaith ac anogaeth. Mae cadernid yn cynyddu sy'n galluogi rhieni i ymdopi'n well â sefyllfaoedd o ddydd i ddydd. Mae dyheadau'n dechrau datblygu ac mae sgiliau a gwybodaeth newydd yn cael eu hennill. Yn araf bach, ond yn sicr, mae mwy a mwy o gyfleoedd bywyd yn dod ar gael.

Y llynedd gwnaethom weithio gyda 5025 o unigolion a dywedodd 100% eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd.

Mae gwerthusiadau'n dangos

Mae nawr gennyf ffrindiau:-
100% - sy'n gwrando arna i
94% - sy'n fy neall i
100% - sydd ag amser i fi
82% - sy'n fy helpu i wneud pethau
88% - dwi'n cwrdd â nhw y tu allan i'r grŵp
74% - sy'n fy helpu gan eu bod yn gwybod sut mae gwneud pethau
100% - dwi'n chwerthin gyda nhw
69% - dwi'n llefain gyda nhw
94% - dwi'n rhannu dathliadau gyda nhw

Mae rhieni'n dweud

'Ers ymuno â'r grŵp dwi wedi dod o hyd i ymdeimlad o ddiben a derbyn. Dyw problemau ddim yn teimlo mor drwm.'
'Dwi wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd sydd wedi dod yn deulu. Mae'n wych cael cefnogaeth a chlust i wrando.'
'Mae wedi rhoi ffrindiau, hyder a hapusrwydd i fi.'

Mae'r prosiect **Calonnau Iach** yn cynnig rhaglen amrywiol sy'n annog dynion i ymuno â gweithgareddau cymdeithasol a chorfforol hwyl.

Gwnaeth saith dyn ymuno â ni yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae **grwpiau Teuluoedd Ynghyd** yn cynnig cefnogaeth leol i deuluoedd sydd wedi'u cau allan. Mae'r nodau'n debyg i rai'r canolfannau teulu traddodiadol. Fodd bynnag, maent yn gweithredu ar raddfa lai, maent yn rhad, ac maent yn gallu ymateb yn gyflym i anghenion lleol.

Mae yna bedwar grŵp teulu yng Nghastell-newydd Emlyn, Llandeilo, Doc Penfro a'r Mount Estate yn Aberdaugleddau.

Mae 74 teulu yn aelodau, sy'n cynnwys 106 o blant.

Mae'r prosiect **Bwndel Baban** yn cynnig cefnogaeth ar ffurf adnoddau i rieni ifanc sy'n cael trafferthion ariannol yn ystod beichiogrwydd, e.e. dillad mamolaeth, ac, ar ôl yr enedigaeth, dillad babi ac offer.

Y llynedd dosbarthwyd 49 o fwndeli rhwng mis Hydref a mis Ebrill.

Plant Dewi yw prosiect Esgobaeth Tyddewi ei hun, sy'n cefnogi lles teuluoedd yn y gymuned. Mae'n rhan o waith Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol.

Ein nod yw cynnig prosiectau sy'n rhoi cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wella eu bywydau ledled de-orllewin Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau cymuned sy'n rhoi llais i rieni, sy'n meithrin plant ac sy'n atgyfnerthu teuluoedd. Mae'r dull hwn yn adeiladu ar gryfderau ac yn helpu pobl a chymunedau i feithrin hyder, ysgogiad, sgiliau a gwybodaeth. Mae cadernid yn cynyddu, gan alluogi penderfyniadau hyddysg, sy'n creu newid cadarnhaol mewn bywydau/ cymunedau.

Ein prosiectau

Mae **canolfannau teulu** yn lleoliadau gofalgar lle mae rhieni'n cael eu cefnogi i dyfu'n bersonol; datblygu perthnasau cadarnhaol â'u plant, teuluoedd a chymunedau; dysgu mwy am ofal plant; datblygu ymdeimlad o berthyn a gwella eu lles.

Mae'r canolfannau teulu annibynnol yn eiddo i'r gymuned, ac mae ganddynt statws elusennol. Maent wedi'u lleoli ym Metws, Felin-foel, Llanelli, Trimsaran, Porth Tywyn, Garnant, Caerfyrddin (Tŷ Ni a Tŷ Hapus), Pencader, Llanybydder, Llambed, Llandysul, Tregaron a Borth. Gwnaeth 3433 o unigolion fanteisio arnynt y llynedd.

Mae **Hybiau Rhieni Ifanc** yn cynnig rhwydweithiau cyfeillgarwch, cymorth gan gymheiriaid a chyfleoedd i ddatblygu dyheadau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â chefnogaeth i rieni ifanc yn eu rôl ofalu ac fel pobl ifanc. Mae'r hybiau ym Mhencader, Llandybïe, Rhydaman a Doc Penfro.

Manteisiodd 82 o rieni ifanc ar yr hybiau y llynedd.

Hwb Plant Dewi, Doc Penfro yw cartref prosiect y dynion.

Mae Prosiect Dewi yn cynnig cyfleoedd i ddynion gymdeithasu, rhannu bwyd, rhannu profiadau ac ehangu eu rhwydweithiau cymorth. Y nod yw cefnogi dynion er mwyn lleihau unigedd, creu ymdeimlad o berthyn, cynyddu eu hysgogiad a'u hannog i fyw bywyd iachach.

Manteisiodd 23 o dadau ar hyn y llynedd.

Mae **Clwb Lego'r Tadau** yn helpu i gryfhau'r berthynas rhwng tadau a'u plant.

Mae wyth tad wedi ymuno â'u plant yn y clwb.

PLANT DEWI

Lle mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Cyflwyniad - Rheolwr, Plant Dewi

Mae Plant Dewi yn ymgysylltu â theuluoedd lleol ac yn eu cefnogi, gan adeiladu ar 60 mlynedd o weithgarwch cymdeithasol yn yr Esgobaeth.

Rydym mewn cyfnod o galedi ac mae'n hanfodol bod sefydliadau fel ein un ni yn parhau'n gadarn. Mae tîm Plant Dewi yn broffesiynol, sefydlog ac yn hollol ymrwymedig i'w weledigaeth, cenhadaeth ac ethos. Mae'r Tîm yn cydnabod yn ddiymhongar yr effaith y gall ei berthnasau ymddiriedus ei gael ar fywydau teuluoedd. Y Tîm yw cryfder Plant Dewi yn ystod cyfnodau caled. Mae cyllid yn her ym mhob rhan o'r sector gwirfoddol a statudol, gyda sefydliadau'n cyrraedd pwynt argyfyngus a gwasanaethau'n cael eu torri. Mae'r effaith ar deuluoedd yn drwm, ac mae angen iddyn nhw hefyd fod yn gadarn. Rydym yn gwybod bod cefnogaeth ffrindiau a phobl sy'n poeni yn cynyddu cadernid. Mae ein prosiectau'n cysylltu â'r rheini sydd wedi'u cau allan, am ba bynnag reswm, ac yn creu cyfleoedd i greu cyfeillgarwch. Ni ellir gorbwysleisio effaith cyfeillgarwch; mae'n dod ag ymdeimlad o les, y sbardun ar gyfer newid cadarnhaol.

Eleni rydym wedi gweithio gyda 5025 o deuluoedd. Mae'r niferoedd hyn yn dangos maint ein gwaith, ond yr ansawdd sydd bwysicaf I ni.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn dangos yr ansawdd hwn i chi a'i effaith ar fywydau.

Sue Fletcher

Croeso – Cadeirydd, Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol

Mae Plant Dewi'n parhau i wneud mwy a mwy o wahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant a theuluoedd sy'n wynebu problemau amrywiol yng ngorllewin Cymru.

Mae'n galonogol gweld, drwy'r gwaith hwn, eu bod wedi estyn allan mewn ffyrdd ymarferol i roi Efengyl Crist wrth wraidd y gymuned. Cyflawnwyd hyn diolch i ymrwymiad, proffesiynoldeb a thosturi staff a gwirfoddolwyr Plant Dewi.

Parhawn i weddïo dros y gwaith gwerthfawr hwn, yn y gobaith y bydd yn gynaliadwy a, gyda dychymyg, yn ffynnu wrth estyn allan â chariad at fyd toredig.

Delyth Wilson

PLANT DEWI

Lle mae Teuluoedd yn Bwysig
Where Families Matter

Gweithio yn Eich Cymuned
Working in Your Community

AROLWG BLYNYDDOL 2018

Rhif Elusen / Registered Charity No: 244178 www.plantdewi.org.uk info@plantdewi.co.uk
Prosiect datblygu cymunedau Cyngor Esgobaeth Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol
A community development project of the St Davids Diocesan Council for Social Responsibility